

# Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer arbed ynni

Drwy ddilyn y camau syml hyn o amgylch y cartref, gallwch gadw'n glud ac arbed arian ar eich biliau ynni.

## Golchi ar 30°C

Os byddwch yn gosod eich peiriant golchi i olchi ar 30°C yn hytrach na thymheredd uwch, byddwch yn arbed £14 y flwyddyn.



## Cadw'r gwres

Mae ffenestri, drysau a holltau yn yr eiddo yn gadael i wres ddianc o'ch cartref. Mae atal drafftiau yn helpu i arbed tua £45 y flwyddyn ar filiau.



## Diffodd y cyfan

Diffoddwch eich goleuadau pan nad ydych yn eu defnyddio. Bydd hyn yn arbed tua £19 y flwyddyn ar eich biliau ynni blynyddol.



## Sychu dillad ar y lein

Gallwch arbed £60 y flwyddyn mewn trydan drwy sychu eich dillad ar y lein yn hytrach na defnyddio peiriant sychu dillad.



## Llai o amser yn y gawod

Bydd treulio un funud yn llai yn y gawod bob dydd yn arbed £8 ar eich biliau ynni bob blwyddyn, fesul unigolyn. Gallai cael cawod 4 munud arbed £30 y flwyddyn i chi, fesul unigolyn.



## Troi'r deial i lawr

Os byddwch yn troi eich thermostad i lawr dim ond 1°C, byddwch yn arbed tua £105 y flwyddyn. Oes amserydd gennych chi? Trefnwch i'r gwres a'r dŵr poeth ddod ymlaen pan fyddwch chi gartref.



## Newid bylbiau golau

Os byddwch yn newid bylbiau gwynias i rai LED, byddwch yn arbed tua £50 y flwyddyn.



Dylai thermostatau fod ar y tymheredd isaf sy'n gyfforddus, fel arfer rhwng 18°C a 21°C.

## Gwefru

Os byddwch yn diffodd offer electronig, goleuadau a gwefryddion sydd mewn modd segur, neu sydd wedi bod ymlaen ond nad ydynt yn cael eu defnyddio, gallech arbed tua £55 y flwyddyn.



## Berwi ychydig

Os byddwch yn llenwi'r tegell gyda dim ond y dŵr sydd ei angen arnoch, byddwch yn arbed £11 y flwyddyn.

